

# Gweithdrefnau Gêm Cars & Cash

## Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer CARS & CASH (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau"), y Rheolau Gêm Benodol a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau a'r Rheolau Gêm Benodol mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn [national-lottery.co.uk](http://national-lottery.co.uk).

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

## Manylion y Gêm

Enw'r Gêm: "CARS & CASH"

Rhify Gêm: "Gêm 1248"

Pris Manwerthu: £2 am bob Cerdyn Crafu

Ceir 1 siawns mewn 3.72 o ennil Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 9,913,200 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gyhwyn.



## Sut i chwarae ac ennil

Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys dwy Gêm, wedi'u labelu fel GAME 1 a GAME 2.

Gall Chwaraewyr ennil hyd at 7 gwaith ar Gerdyn Crafu.

## GAME 1

Mae Ardal Chwarae GAME 1 yn cynnwys pedair rhes wedi'u labelu fel 'ROW 1', 'ROW 2', 'ROW 3' a 'ROW 4'. Mae pob Rhes

yn cynnwys rhify Rhes, un motif  o dan y golofn sy'n dwyn y pennawd 'YOUR NUMBER', un motif  o dan y golofn sy'n dwyn y pennawd 'THEIR NUMBER' a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr"). Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennil Gwobr os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol mewn Rhes o dan haen y pennawd 'YOUR NUMBER' sy'n fwy na'r Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen y pennawd 'THEIR NUMBER'. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Rhes honno.

## Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer GAME 1

Symbolau Chwarae	<b>10</b>	<b>11</b>	<b>12</b>	<b>13</b>	<b>14</b>	<b>15</b>	<b>16</b>
Penawdau Chwarae	-TEN-	ELEVN	TWELV	THRTN	FORTN	FIFTN	SIXTN
Symbolau Chwarae	<b>17</b>	<b>18</b>	<b>19</b>	<b>20</b>	<b>21</b>	<b>22</b>	<b>23</b>
Penawdau Chwarae	SEVTN	EIGTN	NINTN	TWNTY	TWONE	TWTWO	TWTHR
Symbolau Chwarae	<b>24</b>	<b>25</b>	<b>26</b>	<b>27</b>	<b>28</b>	<b>29</b>	<b>30</b>
Penawdau Chwarae	TWFOR	TWFIV	TWSIX	TWSVN	TWEGT	TWNIN	THRTY

Bydd dau Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Rhes yn GAME 1. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae GAME 1 y gellir eu defnyddio i chwarae GAME 1. Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae mewn un Rhes â Symbolau Chwarae mewn unrhyw Res arall i ennil.



GP6M1248

Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT, Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.






**YOUR NUMBERS  
MAKE AMAZING  
HAPPEN**

## Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer GAME 1

Symbolau Gwobr	<b>£2.00</b>	<b>£4.00</b>	<b>£5.00</b>	<b>£10.00</b>	<b>£20.00</b>
Penawdau Gwobr	<b>-TWO-</b>	<b>-FOUR</b>	<b>-FIVE</b>	<b>-TEN-</b>	<b>TWNTY</b>
Symbolau Gwobr	<b>£25.00</b>	<b>£100</b>	<b>£200</b>	<b>£1,000</b>	<b>CAR</b>
Penawdau Gwobr	<b>TWFIV</b>	<b>-HUND</b>	<b>TWHUN</b>	<b>-THOU</b>	<b>-CAR-</b>


Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen pob Blwch Gwobr yn GAME 1. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond Symbol Gwobr GAME 1 a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr mewn Rhes y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â Rhes yn GAME 1.

## GAME 2

Mae Ardal Chwarae GAME 2 yn cynnwys tri motif  a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr") yn union o dan bob motif  yn yr adran o dan y pennawd 'YOUR SYMBOLS' ("Adran Eich Symbolau") ac un motif  yn yr adran o dan y pennawd 'WINNING SYMBOL' (yr "Adran Symbol Buddugol").

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan yr haen yn yr Adran Symbol Buddugol sy'n cyfateb i Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Symbol Gwobr a ddangosir gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr sydd yn union o dan y Symbol Chwarae cyfatebol yn Adran Eich Symbolau.

## Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae ar gyfer GAME 2

Symbolau Chwarae						
Penawdau Chwarae	<b>HOUSE</b>	<b>BIKE-</b>	<b>SHIP-</b>	<b>-HELI</b>	<b>POUND</b>	<b>-ROLL</b>
Symbolau Chwarae						
Penawdau Chwarae	<b>WALLET</b>	<b>PURSE</b>	<b>-KEY-</b>	<b>MIRROR</b>	<b>-FUEL</b>	<b>COIN-</b>

Bydd un Symbol Chwarae gyda'i Bennawd Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn yr Adran Symbol Buddugol yn GAME 2. Bydd tri Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan yr haen yn Adran Eich Symbolau yn GAME 2. Dim ond Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae GAME 2 y gellir eu defnyddio i chwarae GAME 2.

## Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr ar gyfer GAME 2

Symbolau Gwobr	<b>£2.00</b>	<b>£4.00</b>	<b>£5.00</b>	<b>£10.00</b>	<b>£20.00</b>
Penawdau Gwobr	<b>-TWO-</b>	<b>-FOUR</b>	<b>-FIVE</b>	<b>-TEN-</b>	<b>TWNTY</b>
Symbolau Gwobr	<b>£25.00</b>	<b>£100</b>	<b>£200</b>	<b>£1,000</b>	<b>CAR</b>
Penawdau Gwobr	<b>TWFIV</b>	<b>-HUND</b>	<b>TWHUN</b>	<b>-THOU</b>	<b>-CAR-</b>

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos yn union o dan y Symbol Chwarae a'i Bennawd Chwarae cyfatebol o dan haen pob Blwch Gwobr yn Adran Eich Symbolau. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr yn Adran Eich Symbolau y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â GAME 2.



GPGM1248

Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT,  
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel  
uchod am alwadau.



**YOUR NUMBERS  
MAKE AMAZING  
HAPPEN**

THE NATIONAL  
LOTTERY

## Y DDWY GÊM



Os byddwch yn ennill mewn Gêm ac mai **GAR** yw'r Wobr, byddwch yn ennill Gwobr os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni. Y Wobr fydd BMW Model X2 newydd sbon, a gwobr arian parod o £30,000. Mae Rheolau Gêm Benodol yn berthnasol i'r Wobr hon, a gellir dod o hyd iddynt isod.

### Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

Y Gwobrau	Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm	Thebygolrwydd Bras (1 Mewn:) Ar Ddechrau'r Gêm
£2	1,222,666	9
£4	214,742	47
£4 £2 x 2	413,265	24
£5	363,382	28
£10	16,485	602
£10 £2 x 5	115,629	86
£10 £5 x 2	49,591	200
£10 (£4 x 2) + £2	66,125	150
£10 (£2 x 3) + £4	82,659	120
£20	16,485	602
£20 £10 x 2	16,534	600
£20 £5 x 4	16,503	601
£20 (£2 x 5) + (£5 x 2)	49,573	200
£25	1,110	8,931
£25 £5 + £20	1,169	8,481
£25 (£2 x 3) + £4 + £5 + £10	2,020	4,908
£25 (£10 x 2) + £5	1,583	6,263
£25 £5 x 5	1,878	5,279
£25 (£5 x 3) + £10	2,353	4,213
£25 (£2 x 5) + £5 + £10	2,342	4,233
£25 (£4 x 2) + (£5 x 3) + £2	5,369	1,847
£100	81	122,386
£100 (£10 x 5) + (£25 x 2)	158	62,742
£100 (£5 x 3) + £10 + (£25 x 3)	231	42,915
£100 (£5 x 2) + (£20 x 4) + £10	238	41,653
£100 (£5 x 2) + (£10 x 2) + £20 + (£25 x 2)	155	63,957
£200	162	61,193
£1,000	18	550,734
BMW MODEL X2 + £30,000 CAR	10	991,320

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i [national-lottery.co.uk](http://national-lottery.co.uk) neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

### Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm yn cynrychioli 66.76% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £13,236,045.90 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gyhwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gyhwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comiswn Hapchwarau amdanyn yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, na Chardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Camelot heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau).



GP6M1248

Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT,  
Linell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel  
uchod am alwadau.



**YOUR NUMBERS  
MAKE AMAZING  
HAPPEN**

THE NATIONAL  
LOTTERY

## Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Gweithdrefnau hyn fydd drechaf (ac eithrio os bydd unrhyw Reolau Gêm Benodol yn berthnasol i'r Gêm hon. Yn yr achos hwnnw, y Reolau fydd drechaf).

## RHEOLAU GÊM BENODOL SY'N YMWNEUD Â GWOBRAU GÊM 1248 CARS & CASH

Pan fyddwch yn chwarae Gêm Cardiau Crafu y Loteri Genedlaethol "CARS & CASH" (Gêm Rhif 1248) (y "Gêm"), mae'r Rheolau Gêm Benodol hyn (y "Rheolau"), y Gweithdrefnau Gêm (y "Gweithdrefnau") a Rheolau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Gemau Cardiau Crafu ("y Rheolau Cardiau Crafu") yn berthnasol. Mae'r Rheolau hyn yn delio â thalu a dyfarnu'r Gwobrau Ceir a ddiffinnir yn y Rheolau hyn. I gael gwybodaeth am y Gêm (gan gynnwys sut i chwarae ac ennill), gweler y Gweithdrefnau.

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y dogfennau a nodir uchod, y Rheolau hyn a'r Gweithdrefnau fydd drechaf, ac yn a'r Rheolau Cardiau Crafu (oni nodir yn wahanol yn y Rheolau Cardiau Crafu).

Gallwch ddarllen y Rheolau Cardiau Crafu a'r Gweithdrefnau, ynghyd ag unrhyw Reolau Gêm Benodol, ar wefan y Loteri Genedlaethol yn [national-lottery.co.uk/scratchcards](http://national-lottery.co.uk/scratchcards). Mae'r Rheolau Cardiau Crafu hefyd ar gael gan Fanwerthwyr. Gallwch hefyd gael copiau o bob un o'r dogfennau hyn drwy ffonio Llinell y Loteri Genedlaethol ar 0333 234 50 50 (mae'r taliadau a godir am alwadau i'w gweld yn yr adran Ymholiadau Dros y Ffôn) neu drwy ysgrifennu i The National Lottery, PO Box 251, Watford WD18 9BR.

Caiff pob gair ac ymadrodd yn y Rheolau hyn sy'n dechrau gyda phriflythren ac y mae ystyr penodol iddo ei egluro yn Rheol 8 isod neu yn y Rheolau Cardiau Crafu (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

### 1. Hawlio Gwobrau Ceir

- 1.1 Rhaid hawlio Gwobrau Ceir yn bersonol cyn diwedd y Cyfnod Hawlio (fel y nodir yn y Rheolau Cardiau Crafu). Rhaid i Chi ffonio Llinell y Loteri Genedlaethol yn ystod ei oriau agor arferol\* ac yn ystod y Cyfnod Hawlio er mwyn trefnu apwyntiad gyda chynrychiolydd/cynrychiolwyr Camelot. Caiff Eich hawl i'r Wobr Car ei cholli (ac ni ddwyfennir i Wobr Car) os na chaiff y Wobr Car ei hawl o fewn y Cyfnod Hawlio. Caiff hawliad Wobr Car ei ddilysu yn Eich cartref neu mewn unrhyw leoliad arall y cytunir arno, neu mewn Canolfan Ranbarthol.  
\*Ar adeg llunio'r Rheolau hyn, oriau agory Ganolfan Gyswilt yw rhwng 8.00am a 8.00pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 9am a 5pm ar ddydd Sul. Mae'n bosibl y bydd oriau agor cyfyngedig yn weithredol dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Gellir gweld yr oriau agor presennol ar wefan y Loteri Genedlaethol.
- 1.2 Yn ystod Eich galwad ffôn â Llinell y Loteri Genedlaethol, gofynnir i Chi am wybodaeth benodol, gan gynnwys Eich enw, Eich cyfeiriad, Eich rhif(au) ffôn a'ch dyddiad geni ("Gwybodaeth Bersonol").
- 1.3 Yn ystod Eich apwyntiad gyda chynrychiolydd/cynrychiolwyr Camelot, unwaith y bydd Camelot wedi dilysu Eich hawliad yn llwyddiannus, ac yn amodol ar y Rheolau hyn, gofynnir i Chi gwblhau Ffurflen Hawlio Wobr (a ddarperir gan Camelot), neu unrhyw ffurflen arall y bydd yn ofynnol gan Camelot i Chi ei chwblhau, a'i chyflwyno ynghyd â'r Cerdyn Crafu buddugol, tystiolaeth o hawl i wobwr a chadarnhad o'r Wybodaeth Bersonol a nodir yn Rheol 1.2 uchod a Rheol 1.5(a) isod.
- 1.4 Unwaith y bydd Camelot wedi dilysu Eich hawliad yn llwyddiannus, ac yn amodol ar y Rheolau hyn, bydd Camelot yn rhoi llythyr i Chi yn cadarnhau bod gennych hawl i Wobr Car. Bydd y llythyr yn nodi'r wybodaeth a'r dogfennau y mae'n ofynnol i chi eu hanfon i Camelot, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r dogfennau a nodir yn Rheol 1.5(a) isod. Mae'n bosibl y caiff y ddogfennaeth hon ei hanfon yn ddigidol, neu ei darparu fel rhan o'r broses ddilysu, yn dibynnu ar gyfyngiadau COVID.
- 1.5 Eich cyfrifoldeb Chi:
  - a. Bydd angen i Chi anfon Eich tocyn buddugol i Camelot, ynghyd â ffurflen Manylion Cyswilt wedi'i chwblhau, a lle bydd un wedi'i benodi yn unol â Rheol 2.3, ffurflen Enwebai. Bydd y ddwy ffurflen hyn yn cynnwys adran awdurdodi i gynrychiolydd o'r Gwerthwr ei chwblhau a llofnodi tystysgrif cofrestru cerbyd ar eich rhan Chi (neu, ar Eich cais, Eich Enwebai);
  - b. Bydd angen i Chi, neu Eich Enwebai, ddarparu copi o Drwydded Yrru a'r holl ddogfennau yswiriant car perthnasol ac unrhyw ddogfennau eraill y bydd Camelot a/neu'r Gwerthwr yn gofyn i Chi eu darparu;
  - c. Byddwch Chi'n colli eich hawl i gael Car fel rhan o Wobr Car os byddwch Chi'n methu â threfnu i'r Car gael ei ddelifro o fewn deg wythnos o ddilysu Eich hawliad. Yr unig eithriad i hyn fydd mewn amgylchiadau lle y byddwch Chi neu Eich Enwebai wedi cael eich atal rhag trefnu i'r Car gael ei ddelifro am resymau y gellir eu priodoli i Camelot neu'r Gweithgynhyrchwr Ceir.



### GPGM1248

Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT,  
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel  
uchod am alwadau.



**YOUR NUMBERS  
MAKE AMAZING  
HAPPEN**

- 1.6 Unwaith y bydd Eich hawliad wedi'i ddilysu'n llwyddiannus yn unol â gofynion y Rheolau Crafu, y Gweithdrefnau a'r Rheolau hyn, caiff elfen arian parody Wobr Car (sef £30,000) ei thalu i Chi gan Camelot, oni fydd Rheol 1.7 neu Reol 6 isod yn berthnasol. Bydd trefniadau delifro'r Car yn unol â Rheol 2.
- 1.7 Mae'n bosibl y bydd trydydd parti yn cysylltu â Camelot yn ystod y cyfnod hawlio Gwobr, yn honni ei fod yn gynrychiolydd cyfreithiol i Chwaraewr a fu farw ac felly bod ganddo hawl i gael y Wobr Car yn lle, neu ar ran, y Chwaraewr hwnnw a fu farw (er enghraifft fel ysgutor ystad Chwaraewr a fu farw). Mewn achosion o'r fath, bydd Camelot yn atal dyfarnu'r Wobr Car hyd nes y gall gadarnhau pwy sydd â'r hawl briodol i gael y Wobr Car.
- 1.8 Ni fydd Camelot yn atebol i dalu llog i Chi, nac i unrhyw drydydd parti a nodir yn Rheol 1.7 uchod, os caiff elfen arian parody Wobr Car ei hoedi.

## 2. Manylion y Car a Threfniadau Delifro

- 2.1 Bydd hawl gennych ddewis lliw allanol y Car, lliw'r clustogwaith mewnol, a lliw'r olwynion o restr benodol a ddarperir gan Camelot.
- 2.2 Os hoffech wella manylion y Car, bydd hyn ar gost ychwanegol i Chi ac yn amodol ar reolau ar gargeledd y Gwerthwr.
- 2.3 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Camelot ganiatáu i Chi benodi Enwbai. Mae amgylchiadau eithriadol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Eich anallu i yrru'r Car am nad oes gennych Drwydded Yrru, neu fetheu â gyrru'n gorfforol. Rhaid i chi wneud unrhyw benodiad o'r fath yn ysgrifenedig drwy gwblhau'r ffurflen Enwbai a ddarperir gan Camelot, ac erbyn y dyddiad cau a roddir gan Camelot. Rhaid i'r Enwbai feddu ar Drwydded Yrru sy'n ei alluogi i yrru'r Car a rhaid iddo fod yn 18 oed o leiaf. Gofynnir i'r Enwbai ddangos prawf oedran sy'n dderbyniol i Camelot, a chwblhau unrhyw ddogfennau sy'n ofynnol yn rhesymol gan Camelot a/neu'r Gwerthwr.
- 2.4 Chi neu Eich Enwbai fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau delifro a/neu gasglu'r Car gyda'r Gwerthwr.
- 2.5 Cyn y gellir delifro'r Car i Chi neu Eich Enwbai neu cyn i Chi neu Eich Enwbai ei gasglu, bydd angen i Chi neu Eich Enwbai wneud y canlynol:
  - a. dangos unrhyw ddogfennau adnabod y mae'r Gwerthwr yn gofyn amdanynt, a llofnodi unrhyw ddogfennau sy'n ofynnol yn rhesymol gan y Gwerthwr i Chi eu llofnodi; a
  - b. darparu tystysgrif yswiriant modur wreiddiol mewn perthynas â'r Car, sydd wedi cael ei chyflwyno gan gwmni yswiriant cerbydau modur awdurdodedig ac sy'n ddilys yn y Deyrnas Unedig ac Ynys Manaw i'r Gwerthwr. Rhaid i'r yswiriant fod yn enw (neu raid iddo enwi) yr unigolyn sy'n casglu'r Car, sef Chi neu Eich Enwbai, ac yswirio'r unigolyn hwnnw naill ai ar sail gwbl gynhwysfawr neu drydydd parti. Rhaid i'r yswiriant ddechrau ar y seithfed diwrnod ar ôl i'r Car gael ei gofrestru fan bellaf, a rhaid iddo fod yn ddilys am o leiaf 28 diwrnod o'r dyddiad hwn.

## 3. Treth Ffordd

Yn amodol ar Reol 2.5(b) uchod, bydd gan bob Car dreth ffordd am 12 mis yn dechrau o ddiwrnod cyntaf y mis cofrestrwyd y Car hwnnw.

## 4. Atebolrwydd wedi'i Eithrio, ac ati.

- 4.1 Nid yw Camelot yn derbyn unrhyw atebolrwydd o unrhyw fath mewn perthynas â Char gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyflwynu y Car, boed yn fecanyddol neu fel arall, ei ddbiynadwydd na i wasanaethu.
- 4.2 Yn ogystal, nid yw Camelot yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri neu achos honedig o dorri gan y Gweithgynhyrchwr Ceir neu'r Gwerthwr (neu unrhyw unigolyn arall sy'n darparu gwarant neu warantiad mewn perthynas â'r Wobr Car) nac am unrhyw hawliad, anghydfod na mater arall sy'n codi o unrhyw yswiriant sy'n ymwneud â Char, o dan yr yswiriant hwnnw neu mewn perthynas ag ef.
- 4.3 Rydych yn cydnabod bod hawl gan y Gweithgynhyrchwr Ceir i newid manylion y Car heb roi gwybod i Chi yn gyntaf, ac mae'n bosibl y bydd yn gwneud hynny. Rydych hefyd yn cydnabod bod y Gwerthwr yn cadw'r hawl i newid y Car i gar arall â manylion tebyg.

## 5. Cyhoeddusrwydd

- 5.1 Bydd Camelot yn gwneud ei orau i sicrhau bod unrhyw wybodaeth amdanoch Chi neu Eich Enwbai y mae'n ofynnol i Camelot ei datgelu o dan y Rheolau hyn i drydydd parti (er enghraifft er mwyn trefnu i gasglu'r Car o Werthwr), yn cael ei thrin gan y trydydd parti hwnnw yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ni all Camelot warantu y bydd y trydydd parti yn trin y wybodaeth yn gyfrinachol, ac nid yw'n gyfrifol nac yn atebol os bydd y trydydd parti hwnnw yn rhyddhau'r wybodaeth hon i eraill.
- 5.2 Yn amodol ar Reol 5.1, rydych yn derbyn, drwy gymryd rhan yn y Gêm, os byddwch yn ennill Car yn y Gêm, bod natur y wob honno yn golygu y gall trydydd partion amau neu wybod eich hunaniaeth fel enillydd Gwobr Car. Rydych hefyd yn cadarnhau eich bod wedi gwneud unrhyw Enwbai y byddwch yn ei benodi yn ymwybodol o hyn. Ni all Camelot dderbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd o unrhyw fath os bydd hyn yn digwydd.



**GPGM1248**

Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT,  
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel  
uchod am alwadau.



**YOUR NUMBERS  
MAKE AMAZING  
HAPPEN**

**THE NATIONAL  
LOTTERY**

## 6. Dewisiadau Amgen o ran Car neu Arian Parod

- 6.1 Ni allwch ofyn am gar gwahanol i'r Car. Fodd bynnag, os mai dim ond Trwydded Yrru Awtomatig sydd gennych, gallwch uwchraddio'r Car i gael blwch gër awtomatig ar eich cost Eich hun.
- 6.2 Ceidw'r Gwerthwr yr hawl yn ôl ei ddisgresiwn llwyr i gyfnewid unrhyw Gar am gar sydd, ym marn resymol y Gwerthwr, yn debygi fanylion y Car.
- 6.3 Os nad oes gennych Drwydded Yrru na Thrwydded Yrru Awtomatig, na allwch yrru'r Car yn gorfforol, neu nad ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig nac ar Ynys Manaw, gall Camelot, yn ôl ei ddisgresiwn, gynnig arian parod i Chi fel dewis amgen. Bydd yr arian parod yn gyfartal i'r swm y byddai Camelot wedi'i dalu am y Car ac, os nad yw eisoes wedi'i thalu, elfen arian parod o £30,000 y Wobr Car. Mae penderfyniad Camelot yn derfynol ac yn gyfrwymol mewn unrhyw anghydfod sy'n ymwneud â ph'un a ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig neu ar Ynys Manaw ai peidio.
- 6.4 Oni fydd Rheol 6.3 yn berthnasol, nid oes dewis amgen o arian parod (ac ni allwch ofyn am ddewis amgen o arian parod) mewn perthynas â'r Car na'r Wobr Car.

## 7. Y Gyfraith

Y gyfraith berthnasol ar gyfer y Rheolau hyn yw Cyfraith Lloegr, a chaiff unrhyw achosion cyfreithiol eu cyflwyno gerbron Llysoedd Lloegr.

## 8. Ystyr geiriau

Bydd gan yr holl eiriau a themau yn y Rheolau hyn sydd â phriflythrennau yr ystyrion a nodir isod. Bydd gan unrhyw eiriau neu dermau â phriflythrennau na chânt eu hesbonio isod yr ystyr a roddir iddynt yn y Rheolau Cardiau Crafu, ac eithrio lle bydd y cyd-destun yn awgrymu fel arall.

**Camelot:** Camelot UK Lotteries Limited, cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr.

**Car:** Car BMW model X2 sDrive18i Sport SAC B38 1.5i arferol sy'n rhan o'r Wobr Car.

**Chi:** Hawliwr y caiff ei hawl ei ddilysu gan Camelot yn unol â'r Rheolau hyn a'r Rheolau Cardiau Crafu.

**Enwebai:** unigolyn a enwebir gennych Chi (gyda chydysniad Camelot) i gael, neu gasglu, y Car ar Eich rhan. Rhaid i benodiad yr Enwebai, a'r Enwebai ei hun, gydymffurfio â'r meini prawf a nodir yn Rheol 2.3.

**Gweithgynhyrchwr Ceir:** BMW Group United Kingdom Limited yn masnachu fel BMW UK.

**Gwerthwr:** Berry Chiswick (neu unrhyw werthwr arall a benodir o bryd i'w gilydd) sef gwerthwr ceir a gynhyrchir gan y Gweithgynhyrchwr Ceir.

**Gwobr Car:** gwobr a enillir yn y Gêm sy'n rhoi hawl i Chi gael Car ynghyd â'r swm o £30,000 sy'n daladwy drwy CHAPS. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw yswiriant modur ar gyfer y Car wedi'i gynnwys yn y Wobr Car a'ch cyfrifoldeb Chi yn unig yw hwn.

**Hawliwr:** Chwaraewr sy'n hawlio Gwobr Car o fewn y cyfnod a nodir yn Rheol 1.1.

**Trwydded Yrru Awtomatig:** trwydded yrru lawn sy'n ddilys yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd sy'n awdurdodi ei deiliad i yrru cerbydau modur â gër awtomatig yn unig.

**Trwydded Yrru:** trwydded yrru lawn sy'n ddilys yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd sy'n awdurdodi ei deiliad i yrru cerbydau modur arferol ac awtomatig, gan gynnwys y Car a cherbydau tebyg.

## Rhifau a Chyfeiriadau Cyswllt

YMHOLIADAU DROS Y FFÔN Llinell y Loteri Genedlaethol: **0333 234 50 50 (0370 737 3983** ar gyfer cwynion) I'r rhai sy'n drwm eu clyw ac yn defnyddio cyfarpar minicom, ffoniwch **0370 737 8249**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 ac 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

YMHOLIADAU DRWY'R POST The National Lottery, PO Box 251, Watford WD18 9BR

E-BOST [help@national-lottery.co.uk](mailto:help@national-lottery.co.uk)

GWEFAN [www.national-lottery.co.uk](http://www.national-lottery.co.uk)

HAWLIADAU DRWY'R POST The National Lottery, PO Box 287, Watford WD18 9TT

CYFEIRIAD CANOLFAN RANBARTHOL Y LOTERI GENEDLAETHOL

WATFORD (swyddfa gofrestredig Camelot) The National Lottery, Tolpits Lane, Watford WD18 9RN Ffôn: 01923 425000



**GPGM1248**

Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT,  
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel  
uchod am alwadau.



**YOUR NUMBERS  
MAKE AMAZING  
HAPPEN**

**THE NATIONAL  
LOTTERY**